

Crynodeb Gweithredol

Amcangyfrifir bod 90,000 o bobl yn marw mewn tloedi bob blwyddyn yng ngwledydd Prydain.[1] Ond mae'r adroddiad hwn yn dangos nad yw anghenion ariannol a chymdeithasol sylweddol y grŵp hwn o bobl a'u hanwyliaid yn cael eu diwallu.

Er mwyn i bobl gael marwolaeth dda, mae angen trin eu hanghenion ariannol a chymdeithasol gyda'r un difrifoldeb â'u hanghenion clinigol. Fodd bynnag, mae'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd yn annigonol, yn anhygyrch ac yn anghyson.

Mae sgysiau gyda phobl sydd â phrofiad bywyd, a gweithwyr proffesiynol, ledled Prydain yn dweud llawer. Maen nhw'n datgelu'r baich meddyliol a chorfforol o wynebu marwolaeth, marw a phrofedigaeth ochr yn ochr â chaledi ariannol. Maen nhw'n dangos y costau cudd sylweddol ar gyfer y grŵp hwn. Mae'r rhain yn cynnwys cludiant i apwyntiadau, biliau ynni ar gyfer dyfeisiau meddygol, ac angladdau.

Mae'n amlwg bod bai ar ein cymdeithas, sy'n gwneud fawr ddim i atal pobl sydd â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd, a'r bobl sy'n bwysig iddynt, rhag mynd i galedi ariannol. A phan fyddant wedi mynd i galedi, dydy'r wladwriaeth les ddim yno i'w dal. Mae ein system lles a nawdd cymdeithasol yn anodd ei llywio, yn anodd ei deall ac yn anodd cael mynediad ati. Mae rhwystrau ar bob tro. Does dim cysondeb o ran y cyngor a'r cymorth sydd ar gael, ac mae'r cyfan yn dibynnu ar y sector gwirfoddol. Mae hyn yn arwain at loteri cod post o ran cymorth.

Mae cyfrifoldeb ar lywodraethau, gwasanaethau a systemau iechyd lleol i atal caledi ariannol. Rhaid iddynt sicrhau bod pobl sy'n wynebu caledi ariannol ac sy'n profi marwolaeth, marw a galar yn cael y cymorth y mae cymaint o'i angen arnynt.

Gallai Llywodraeth y Deyrnas Unedig wneud gwahaniaeth sylfaenol i fywydau pobl. Drwy gyflwyno Gwarant Hanfodion fel rhan o'r Credyd Cynhwysol, byddent yn sicrhau bod pawb yn gallu fforddio'r pethau sylfaenol, cyn bod unrhyw ddiagnosis. Byddai darparu incwm ar lefel pensiwn y wladwriaeth i bobl o oedran gweithio sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd yn eu helpu i fyw'n dda hyd y diwedd.

Gallai systemau iechyd a gofal ar draws gwledydd Prydain ddod â'r loteri cod post i ben ym maes cyngor ariannol a nawdd cymdeithasol. Byddai hyn yn golygu sicrhau safon ofynnol o gyngor nawdd cymdeithasol a lles ym mhob ardal i bobl sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd a'u hanwyliaid.

Gallai gwasanaethau iechyd a gofal nodi a helpu cymaint o'r bobl sydd angen cymorth. Gallent sicrhau bod eu staff yn holi am bryderon ariannol ar bwyntiau allweddol ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth ariannol lleol.

Creodd sylfaenydd y mudiad hosbis modern, y Fonesig Cicely Saunders, y term 'poen llwyr'. Mae'n disgrifio sut mae poen ar ddiwedd oes nid yn unig yn gorfforol ond hefyd yn seicolegol, yn gymdeithasol ac yn ysbrydol. Gall hosbisau sydd â phrosesau a gwasanaethau atgyfeirio gwirioneddol gyfannol fodelu sut mae gofal lliniarol a diwedd oes llwyddiannus yn edrych

[1] Marie Curie. Dying in poverty: exploring poverty at the end of life in the UK. Marie Curie; 2022

[2] Rowley J, Richards N, Carduff E, Gott M. The impact of poverty and deprivation at the end of life: a critical review. Palliat Care Soc Pract. 2021 Medi 12;15:26323524211033873. doi: 10.1177/26323524211033873.

Argymhellion

Er mwyn atal pobl rhag byw mewn caledi ariannol, neu ar ymylon caledi, cyn cael diagnosis:

Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) gyflwyno Gwarant Hanfodion. Dylai hyn gynnwys isafswm cyfreithiol o gymorth fel rhan o'r Credyd Cynhwysol. Dylai hefyd gynnwys proses annibynnol i argymhell yn rheolaidd beth ddylai lefel y cymorth hwn fod.

Er mwyn atal pobl sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd a'u hanwyliaid rhag mynd i galedi ariannol:

Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau alluogi pobl o oedran gweithio, sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd, i gael mynediad at eu pensiwn gwladol. Pan fo angen, fe ddylent allu cael mynediad at Elfen Credyd Pensiwn y Credyd Cynhwysol.

Dylai'r Adran Diogeledd Ynni a Sero Net gyflwyno tariff cymdeithasol ar gyfer ynni. Byddai hyn yn lleihau'r biliau ynni ar gyfer aelwydydd incwm isel ac agored i niwed.

Er mwyn galluogi gofalwyr di-dâl y bobl sydd â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd i ddiwallu eu hanghenion ac anghenion eu hanwyliaid:

Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon fynd ati ar fyrder i ddiwygio lefel y Lwfans Gofalwr sy'n cael ei dalu, a'r rheolau i fod yn gymwys i'w gael, yn ogystal â thaliadau nawdd cymdeithasol sy'n ymwneud â gofalwyr ac sy'n amodol ar brawf modd. Dylai hyn gynnwys:

- Cynnydd yn y swm a roddir i ofalwyr sy'n rhoi gwerth digonol ar eu gwaith ac yn eu cefnogi'n ddigonol i barhau i ddarparu gofal ac i ofalu am eu hanghenion eu hunain.
- Cynnydd yn y terfyn enillion ar gyfer Lwfans Gofalwr, sydd wedi'i gysylltu â'r Cyflog Byw Cenedlaethol.
- Ymestyn y cyfnod pan fydd gofalwyr mewn profedigaeth yn cael Lwfans Gofalwr, o wyth wythnos i chwe mis.
- Darparu cymorth ariannol ychwanegol heb brawf modd i ofalwyr sydd o oedran pensiwn y wladwriaeth.
- Cymorth ariannol ychwanegol i'r rhai sy'n gofalu am fwy nag un.

Dylai Llywodraeth yr Alban nodi amserlen glir ar gyfer cyflwyno ei diwygiadau arfaethedig i'r Taliad Cymorth i Ofalwyr. Dylai hyn gynnwys:

- Ymestyn y cyfnod pan fydd gofalwyr mewn profedigaeth yn cael Lwfans Gofalwr, o wyth wythnos i chwe mis.
- Cynnydd yn y trothwy ar gyfer y terfyn enillion. Dylid cynyddu hwn yn flynyddol yn unol â chwyddiant.
- Cymorth ariannol ychwanegol i'r rhai sy'n gofalu am fwy nag un.

[3] Llywodraeth yr Alban. Ymgynghoriad ar nawdd cymdeithasol Cymorth i Ofalwyr yr Alban: Ymateb Llywodraeth yr Alban: Fersiwn hawdd ei ddarllen. [rhyngrwyd]. 2023 [dyfynnwyd 07 Awst 2024]. Ar gael o: <https://www.gov.scot/publications/social-security-scottish-carers-assistance-consultation-scottish-government-response-easy-read-version/documents/>

Er mwyn galluogi pobl sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd a'u hanwyliaid i gael mynediad at y taliadau nawdd cymdeithasol sydd eu hangen arnynt:

Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau:

- Cynyddu nifer y staff sy'n darparu gwybodaeth a chynghor ynghylch nawdd cymdeithasol. Byddai hyn yn sicrhau eu bod yn gallu bodloni'r galw am gyngor a chymorth.
- Darparu hyfforddiant i staff ar anghenion pobl sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd, eu gofalwyr a'r rhai sy'n profi profedigaeth.
- Adolygu'r system nawdd cymdeithasol yn llawn i'w gwneud yn llai cymhleth ac yn fwy hygyrch.

Dylai systemau iechyd lleol ar draws gwledydd Prydain sicrhau bod safon ofynnol o gyngor lles a nawdd cymdeithasol yn cael ei darparu i bobl sydd â chyflwr hirdymor, gan gynnwys pobl sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd, a'u gofalwyr, yn eu hardal.

Dylai gwasanaethau iechyd a gofal:

- Sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn holi am bryderon ariannol ar bwyntiau allweddol.
- Sicrhau bod gan weithwyr iechyd a gofal proffesiynol fanylion am wasanaethau cymorth ariannol lleol y gallant gyfeirio cleifion atynt.

Dylai hosbisau:

- Cydweithio â sefydliadau sy'n cefnogi pobl sy'n byw mewn caledi ariannol. Gallent hefyd eu hyfforddi ar anghenion pobl sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd a'u hanwyliaid.
- Ystyried gwneud cais am gyllid i greu swyddi ymgynghorwyr nawdd cymdeithasol fyddai'n cefnogi cleifion hosbis.

Er mwyn sicrhau bod pobl sydd â salwch sy'n cyfyngu ar fywyd a'u hanwyliaid yn gallu fforddio teithio i gael gofal hanfodol a threulio'r eiliadau olaf gyda'i gilydd:

Dylai systemau iechyd lleol ar draws gwledydd Prydain:

- Sicrhau bod cludiant hyblyg sy'n hawdd ei gyrraedd ac sydd wedi'i ariannu ar gael. Byddai pobl sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd yn gallu cael mynediad ato er mwyn cyrraedd apwyntiadau neu wasanaethau.
- Darparu cyllid y gall teuluoedd a gofalwyr gael mynediad ato. Byddai hyn yn talu am danwydd, trafnidiaeth gyhoeddus a pharcio. Byddai'n caniatáu iddynt ymweld ag anwyliaid mewn unedau cleifion mewnol, neu i'w gyrru i apwyntiadau.
- Ystyried teithio i hosbisau elusennol lleol ac yn ôl wrth archwilio a chynllunio anghenion cludiant cleifion ar draws eu hardal.

Dylai hosbisau wella mynediad corfforol at eu gwasanaethau. Gallai hyn gynnwys gwasanaethau/clinigau cleifion allanol a chymorth cludiant i gyrraedd pobl nad ydyn nhw'n gallu teithio yno.

[4] Mae hyn yn cyfeirio at Fyrddau Iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru, Byrddau Gofal Integredig yn Lloegr, Byrddau Partneriaeth Integredig Ardal yng Ngogledd Iwerddon, a Byrddau Iechyd a Phartneriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn yr Alban.

Er mwyn galluogi pobl sydd â chyflwr sy'n cyfyngu ar fywyd a'u hanwyliaid i gael mynediad at y cymorth cyfannol sydd ei angen arnynt:

Dylai gwasanaethau iechyd a gofal sylfaenol ac eilaidd ddatblygu perthnasoedd agos gyda darparwyr sector gwirfoddol lleol, gan gynnwys hosbisau, a chydweithio â nhw. Rhaid iddynt fod â dealltwriaeth dda o'r amrywiaeth o wasanaethau maent yn eu cynnig.

Dylai hosbisau:

- Sicrhau bod eu hasesiadau cyntaf a'u gwaith brysbennu cleifion yn cynnwys cwestiynau am fod yn gymwys i gael taliadau nawdd cymdeithasol a phryderon ariannol.
- Sicrhau bod eu meini prawf atgyfeirio a'r gwasanaeth maent yn ei ddarparu yn cymryd agwedd wirioneddol gyfannol at ofal lliniarol a diwedd oes. Byddai hyn yn cynnwys anghenion cymdeithasol, ariannol ac emosiynol.
- Defnyddio data poblogaeth a gwasanaeth i ddeall pwy maen nhw'n eu cefnogi a phwy nad ydyn nhw'n eu cefnogi.
- Ariannu prosiectau a swyddi yn y cymunedau y mae angen iddynt feithrin cysylltiadau â nhw.

Er mwyn atal pobl rhag cael eu cosbi am golli anwyliaid:

Dylai'r Adran Gwaith a Phensiynau ymestyn yr eithriad o'r Tâl Tanfeddiannu (y dreth ystafell wely) i flwyddyn (yn hytrach na thri mis) ar ôl profedigaeth.

Mae angen i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gyflwyno rheoliadau newydd i greu safonau gofynnol statudol ar gyfer angladdau iechyd cyhoeddus.

Mae angen i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ddeddfu i'w gwneud yn ofynnol i landlordiaid yn y sectorau rhentu preifat a chymdeithasol roi o leiaf chwe mis o rybudd cyn troi pobl allan pan fydd tenant gwreiddiol yn marw.